**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**GORCHYMYN TRAFFIG DROS DRO DIGWYDDIAD ARBENNIG RHEDEG 10K PORTHCAWL (FFYRDD AMRYWIOL, PORTHCAWL) 2025**

**RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN** fod y Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Porthcawl wrth arfer ei bwerau dan Adran 16A Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), a'r holl pwerau galluogi eraill, heb fod yn llai na 7 diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn, yn bwriadu creu Gorchymyn a fydd yn cyflwyno, dros dro, y cyfyngiadau a nodir yn yr atodlen isod.

Mae'r Gorchymyn yn angenrheidiol gan fod y digwyddiad rhedeg 10K blynyddol yn mynd rhagddo ar y briffordd. Mae'n ofynnol cau'r ffyrdd er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y rhai sy'n mynychu ac yn gweithio yn ystod y digwyddiad a'r trigolion yn yr ardal gyfagos.

Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 05 Gorffennaf 2025 a bydd yn parhau i fod mewn grym tan a gan gynnwys 06 Gorffennaf 2025, neu nes y bydd y digwyddiad wedi'i gwblhau hyd at uchafswm o 3 diwrnod. Rhagwelir y bydd y Gorchymyn yn weithredol rhwng yr amseroedd fel y nodir yn yr amserlen isod, fodd bynnag, mae'r amseroedd yn debygol o amrywio yn dibynnu ar ofynion gweithredol rheoli torf a diogelwch yn ystod y digwyddiad.

**Atodlen – Ffyrdd fydd yn cau dros dro**

| | **Dyddiad** | **Amser** | **Nodiadau** |
|---|---|---|---|
| Eastern Promenade | 05/07/2025 - 06/07/2025 | 05:00 - 16:00 | O'r fynedfa i Faes Parcio Salt Lake i'r gyffordd â'r Portway. |
| Maes Parcio Cosy Corner | 05/07/2025 - 06/07/2025 | 05:00 - 16:00 | Cau'n llawn |
| Eastern Promenade | 06/07/2025 | 09:45 - 11:20 | Cau'n llawn |
| Eastern Promenade | 06/07/2025 | 11:20 - 16:00 | Cau eto o'r fynedfa i Faes Parcio Salt Lake i'r gyffordd â'r Portway. |
| Y Portway | 06/07/2025 | 05:00 - 16:00 | Cylchfan Portway yn gwbl weithredol ac eithrio mynediad i lawr y Portway. Cynhelir mynediad ar gyfer defnyddwyr cychod. |
| Yr Esplanâd | 06/07/2025 | 05:00 - 14:00 | Cau'n llawn |
| Yr Esplanâd | 06/07/2025 | 14:00 - 16:00 | Cau o gyffordd John Street i'r Portway |
| aFfordd Newydd | 06/07/2025 | 09:45 - 11:40 | Ailagor graddol ar hyd lled rhwng 10:25 - 10:40 |
| Beach Road | 06/07/2025 | 09:45 - 11:50 | |
| Rhych Avenue | 06/07/2025 | 09:45 - 12:10 | |
| Mackworth Road | 06/07/2025 | 09:45 - 12:10 | Mae'r llwybr yn croesi wrth gyffordd Mackworth/New Road a Mackworth a HiTide/Coney Beach |
| John Street | 06/07/2025 | 09:45 - 12:20 | Cyffordd Lias Road i aros ar agor tan 10:10 i hwyluso dod i mewn/gadael i breswylwyr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| South Road | 06/07/2025 | 09:45 - 12:40 | |
| Locks Lane | 06/07/2025 | 09:45 - 12:55 | |
| Mallard Way | 06/07/2025 | 09:45 - 13:05 | |
| West Drive | 06/07/2025 | 09:45 - 13:05 | |

Bydd yr holl drefniadau cau yn cael eu dirymu cyn gynted ag y bydd rhan yn cael ei chlirio ond erbyn 16:00.

Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau yw trwy'r gwyriad yn ôl yr arwyddion yn lleol.

Bydd mynediad i gerbydau'r gwasanaethau brys yn cael ei gynnal a bydd mynediad yn cael ei gynnal i gerddwyr i bob eiddo.

Fodd bynnag, bydd y cyfyngiad ond yn berthnasol ar adegau ac i'r graddau a ddangosir o bryd i'w gilydd gan arwyddion traffig a ragnodir gan Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016.

Dyddiad: 19/06/2025

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.